# Manyleb y cymhwyster
# Tystysgrif Lefel 4 CIH ym maes Tai

## Cyflwyniad

Y Sefydliad Tai Siartredig (CIH) yw llais annibynnol y maes tai, a chartref safonau proffesiynol. Elusen gofrestredig a mudiad dielw yw'r CIH.

Mae Sefydliad Dyfarnu'r CIH yn darparu cymwysterau tai sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, ac sy'n cael eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual), Achrediad Awdurdod Cymwysterau'r Alban, CCEA Regulation a Chymwysterau Cymru. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r cymwysterau diweddaraf, sy'n berthnasol ac o'r safon uchaf ar gyfer darpar weithwyr proffesiynol yn y sector.

Pwrpas manyleb y cymhwyster yw rhoi gwybodaeth i'r defnyddiwr am yr unedau sy'n rhan o'r cymhwyster hwn, strwythur y cymhwyster, y dulliau asesu a'r gofynion sicrhau ansawdd sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster.

Rhif cyfeirnod y cymhwyster yw 610/4695/4.
Y dyddiad y daw'n weithredol yw 1 Hydref 2024.
Cod cynllun CIH yw 4H11.

### Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â manyleb y cymhwyster, anfonwch e-bost at awarding.organisation@cih.org.

| Dyddiad | Fersiwn | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|
| Tachwedd 2024 | 1124 | Diweddarwyd y cyfeiriad at CCEA i CCEA Regulation yn y cyflwyniad. |
| Tachwedd 2024 | 1124.2 | Ychwanegwyd achrediad CCEA Regulation at yr adran ‘ynglŷn â’r cymhwyster’. |
| Awst 2025 | 2508 | Diweddarwyd AC 2.1 i nodi bod rhaid defnyddio safonau proffesiynol CIH<br>Diweddarwyd y tabl eithriadau uned – ychwanegwyd CIHCM. |

# Ynglŷn â’r cymhwyster

Mae hwn yn gymhwyster galwedigaethol lefel 4 ar gyfer y sector tai, sy’n cael ei reoleiddio gan Ofqual a Cymwysterau Cymru ac wedi cael ei achredu gan CCEA Regulation.

Amcan y cymhwyster yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr o’r arferion tai sy’n ofynnol i ddarparu gwasanaethau tai effeithiol ar lefel rheoli.

Gall gefnogi mynediad a symud ymlaen i rolau rheoli tai uwch fel rheolwr cynnwys preswylwyr, rheolwr gosod tai, rheolwr tenantiaeth, a rheolwr incwm.

Bydd dysgwyr sy’n llwyddo i gwblhau’r cymhwyster yn gymwys i fod yn aelodau o CIH ar lefel ‘ymarferydd ardystiedig’.

Nod y cymhwyster yw darparu’r wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen i weithredu’n effeithiol mewn rôl uwch reolwr tai yn y sector tai.

Mae’r cymhwyster yn addas ar gyfer dysgwyr sydd:

- mewn rôl oruchwylio neu reoli ym maes tai neu’n awyddus i fod
- eisoes â chymhwyster lefel 3 a/neu brofiad o weithio ym maes tai neu mewn sector cysylltiedig, ar lefel goruchwyliwr / rheolwr yn ddelfrydol

## Gofynion mynediad

Nid yw Sefydliad Dyfarnu’r CIH yn pennu gofynion mynediad. Gallai fod yn fuddiol i ddysgwr feddu ar y canlynol:

- profiad o weithio ym maes tai neu ddiwydiant sy’n gysylltiedig â thai, ar lefel goruchwylio neu reoli yn ddelfrydol
- wedi ennill cymhwyster lefel 3 yn flaenorol
- wedi cwblhau cymhwyster rheoli
- wedi cwblhau cymhwyster tai neu gymhwyster o sector cysylltiedig

Mae rhagor o fanylion am y lefel y mae gofyn i’r dysgwr allu ei chyflawni ar gael yn yr adran ar ddisgrifyddion lefel 4.

## Llwybrau cynnydd

Gall y cymhwyster gefnogi cyflogaeth neu gynnydd mewn rolau rheoli uwch ym maes tai fel y rhai canlynol:

- Rheolwr gwasanaethau tai
- Rheolwr cynnwys preswylwyr
- Rheolwr tai â chymorth

- Rheolwr gosod tai
- Rheolwr eiddo/tai.

Efallai y bydd y dysgwr yn dymuno symud ymlaen i gymwysterau pellach fel:

- Diploma CIH Lefel 5 ym maes Tai
- Cymhwyster israddedig ym maes tai.

Gall y llwybrau cynnydd dysgu hyn roi cyfle i ennill statws Aelod Siartredig o'r CIH.

## Disgrifyddion Lefel 4

Mae'r disgrifyddion lefel 4 yn nodi'r lefel y mae'n rhaid i ddysgwr fod yn gweithio arni er mwyn ennill y cymhwyster. Ni ddylid eu defnyddio fel meini prawf marcio ond gellir eu defnyddio fel adnodd asesu cychwynnol i bennu lefel y dysgwyr.

| Disgrifydd gwybodaeth (mae'r deiliad yn...) | Disgrifydd sgiliau (gall y deiliad...) |
|---|---|
| Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ymarferol, ddamcaniaethol neu dechnegol o bwnc neu faes gwaith i fynd i'r afael â phroblemau sydd wedi'u diffinio'n dda ond sy'n gymhleth ac yn anarferol.<br>Gallu dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol.<br>Ymwybodol o natur a chwmpas bras y maes astudio neu'r maes gwaith.<br>Meddu ar ymwybyddiaeth wybodus o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith. | Nodi, addasu a defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol priodol i lywio camau gweithredu a mynd i'r afael â phroblemau sy'n gymhleth ac yn anarferol ac sydd wedi'u diffinio'n eithaf da fel arfer.<br>Adolygu effeithiolrwydd a phriodoldeb dulliau, camau gweithredu a chanlyniadau. |

I weld cymhariaeth o lefelau cymwysterau ar draws y DU, gweler:
https:///scwf.org.uk/media/c3ji03tw/comualifications-can-cross-comundaries-aug-23.pdf

## Prentisiaeth

Mae'r unedau o'r cymhwyster wedi cael eu cyfeirio at y Safon Prentisiaeth: Uwch reolwyr tai ac eiddo, Lloegr. Gweler Atodiad 2.

# Strwythur y cymhwyster

Teitl y cymhwyster: Tystysgrif CIH Lefel 4 ym maes Tai

Rhaid i ddysgwyr gyflawni chwe uned (36 credyd) i gyd, sy'n cynnwys pedair uned orfodol (24 credyd) a dwy uned ddewisol (12 credyd), i ennill y cymhwyster.

Rhaid i Sefydliad Dyfarnu'r CIH gymeradwyo'r cyfuniad o unedau dewisol y mae canolfan yn eu rhoi at ei gilydd mewn cwrs cyn y gall y ddarpariaeth ddechrau.

Argymhellir y dylid cael 90 awr o ddysgu dan arweiniad ar gyfer y cymhwyster.

Disgwylir i'r cyfanswm oriau cymhwyso ar gyfer y cymhwyster fod yn 360 awr.

Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster mewn mwy neu lai o amser yn unol â'r cynllun sy'n cael ei gymeradwyo gan Sefydliad Dyfarnu'r CIH cyn dechrau'r cwrs.

Gellir cyflwyno'r unedau mewn unrhyw drefn.

Dyfernir y cymhwyster ar sail Llwyddo / Methu.

## Unedau gorfodol

Mae'r cymhwyster yn cynnwys y pedair uned orfodol ganlynol. Rhaid i'r dysgwr gyflawni pob un o'r rhain (24 credyd):

| Teitl yr uned | Credydau | Lefel | Oriau Dysgu dan Arweiniad | TUT | Tudalen |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfraith a rheoliadau tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 12 |
| Polisi Tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 13 |
| Sylw i gwsmeriaid ym maes tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 14 |
| Proffesiynoldeb ym maes tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 16 |

## Unedau dewisol

Mae'r cymhwyster yn cynnwys yr unedau dewisol canlynol. Rhaid cyflawni dwy uned (12 credyd) o'r grŵp hwn:

| Teitl yr uned | Credydau | Lefel | Oriau Dysgu dan Arweiniad | TUT | Tudalen |
|---|---|---|---|---|---|
| Darparu gwasanaethau i gefnogi iechyd a lles ym maes tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 18 |
| Cyllid ym maes tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 19 |
| Datblygu tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 20 |
| Rheoli Tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 21 |
| Anghenion tai, y galw am dai a'r cyflenwad o dai | 6 | 4 | 15 | 60 | 23 |
| Rheoli pobl, timau a newid | 6 | 4 | 15 | 60 | 24 |
| Gweithio mewn partneriaeth ym maes tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 25 |
| Sgiliau ymchwil ar gyfer tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 26 |
| Cyfranogiad preswylwyr ym maes tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 27 |
| Strategaethau ar gyfer darparu gwasanaethau byw'n annibynnol | 6 | 4 | 15 | 60 | 29 |
| Cynaliadwyedd ym maes tai | 6 | 4 | 15 | 60 | 31 |

# Darparu'r cymhwyster

## Cymeradwyaeth i ddarparu'r cymhwyster

A chithau'n ganolfan sydd wedi'i chymeradwyo gan Sefydliad Dyfarnu'r CIH, rhaid i chi fod wedi eich cymeradwyo gan Sefydliad Dyfarnu'r CIH i ddarparu'r cymhwyster. Ni chewch dechrau darparu ac ni fydd cofrestriadau dysgwyr yn cael eu derbyn nes bydd y broses hon wedi'i chwblhau.

## Cofrestru dysgwyr a ffioedd

Cyn darparu'r cymhwyster, rhaid i chi gofrestru pob dysgwr gyda Sefydliad Dyfarnu'r CIH. Mae ffi'n daladwy ar gyfer pob dysgwr. Mae'r rhestr ffioedd ar gael ar ein gwefan drwy ddilyn y ddolen ganlynol: www.cih.org/education/comualifications/delive-our-comualifications. I gael rhagor o wybodaeth am delerau talu, darllenwch ein polisi anfonebu.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Cafodd ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eu gwneud wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn i hybu mynediad ac i leihau rhagfarn. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu gwneud fel rhan o'r gwaith o ddarparu ac asesu'r cymhwyster hwn.

Mae Sefydliad Dyfarnu'r CIH yn disgwyl i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gael eu hintegreiddio yn y broses ddarparu ar gyfer pob canlyniad dysgu, hyd yn oed lle nad oes meini prawf asesu penodol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Rhoi canlyniadau dysgu a meini prawf asesu mewn cyd-destun

Rhaid i ganolfannau roi'r gwaith o gyflwyno ac asesu unedau mewn cyd-destun yn unol ag amgylchiadau lleol a sectoraidd y grŵp o ddysgwyr y maent yn darparu iddynt (e.e. mae addysgu ac asesu'r gyfraith yn berthnasol i gyfraith y wlad y mae'r grŵp o ddysgwyr yn gweithredu ynddi).

## Gofynion o ran cymhwysedd galwedigaethol staff

Mae asesiadau ar gyfer cymwysterau CIH yn cael eu cynllunio (yn amodol ar adolygiad) a'u rhoi ar waith gan staff canolfannau cymeradwy. Cyfrifoldeb y ganolfan gymeradwy yw sefydlu a chynnal staff sydd â'r profiad a'r cymwysterau priodol.

Er bod disgwyl bod gan staff, yn y rhan fwyaf o achosion, y profiad a'r cymwysterau priodol ar gyfer eu swydd, gellir caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd os yw'r ganolfan yn gallu dangos bod eu staff ehangach yn diwallu'r gofynion, gan ddangos y gellir defnyddio digon o gefnogaeth a goruchwyliaeth ddigonol yn ôl yr angen. Gellir defnyddio'r dull hwn pan fydd staff yn astudio tuag at gymwysterau ychwanegol.

**Gofynion o ran Profiad yn y Sector (swyddi'r holl staff)**

Rhaid i swyddi holl staff y ganolfan (Tiwtor, Asesydd, Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol) fodloni o leiaf un o'r gofynion canlynol:

- Cymhwyster Tai cydnabyddedig, neu gymhwyster sy'n gysylltiedig â Thai ar lefel 4 neu uwch, neu;
- Cofrestru a chwblhau cymhwyster Tai cydnabyddedig neu gymhwyster sy'n gysylltiedig â Thai o fewn cyfnod amser y cytunwyd arno, neu;
- O leiaf 2 flynedd o brofiad o weithio ar lefel rheolwr neu lefel uwch mewn sefydliad Tai neu sefydliad sy'n gysylltiedig â Thai, neu;
- Aelodaeth broffesiynol o gorff proffesiynol cydnabyddedig ym maes Tai.

**Gofynion Dangosol Penodol i'r Swydd**

| Swydd* | Cyfrifoldebau Dangosol | Gofynion Dangosol |
|---|---|---|
| **Tiwtor** | • Darparu cynnwys y rhaglen<br>• Dehongli meini prawf asesu unedau<br>• Hwyluso dysgu<br>• Cynllunio gwersi<br>• Rhoi cymorth ac adborth i ddysgwyr | • Cymhwyster addysgu cydnabyddedig L3, e.e. Dyfarniad L3 mewn Addysg a Hyfforddiant (neu gymhwyster PTLLS cyfatebol) ***neu***<br>• 12 mis o brofiad addysgu |
| **Asesydd** | • Cynllunio a datblygu deunyddiau asesu<br>• Gwerthuso cyflawniad dysgwyr yn erbyn canlyniadau dysgu a meini prawf asesu<br>• Rhoi cymorth ac adborth i ddysgwyr | • Cymhwyster Asesydd L3 cydnabyddedig (rhan o'r fframwaith cymwysterau Hyfforddiant, Asesu a Sicrhau Ansawdd), e.e. Dyfarniad L3 mewn Asesu Cyrhaeddiad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth (neu Ddyfarniad A1 cyfatebol / Unedau D32/D33) |
| **Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol** | • Rheoli a goruchwylio'r strategaeth sicrhau ansawdd mewnol<br>• Samplu dyfarniadau aseswyr i sicrhau cywirdeb a chysondeb<br>• Arsylwi addysgu<br>• Monitro arferion asesu<br>• Rhoi cymorth ac adborth i aseswyr<br>• Cydlynu / goruchwylio gweithgarwch safoni<br>• Rhannu arferion gorau | • Cymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol L4 cydnabyddedig, e.e. Dyfarniad L4 mewn Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Arferion Asesu Mewnol (neu Ddyfarniad Dilysydd Mewnol V1 / D34 cyfatebol) |

*Mewn llawer o achosion, deellir y bydd staff y ganolfan yn ymgymryd â mwy nag un rôl, e.e. Tiwtor ac Asesydd. Sylwch na ddylai Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol fod wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu nac asesu unrhyw gymhwyster / uned y maent yn ei adolygu.

Ceir rhagor o fanylion am y cymwysterau addysgu ac asesu sydd ar gael ar hyn o bryd yn y mannau canlynol:

**Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon** www.register.ofqual.gov.uk

**Yr Alban:** www.sqa.org.uk/sqa/64775.html

## Staff dan hyfforddiant

Rhaid i Diwtoriaid, Aseswyr a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol dan Hyfforddiant ennill cymhwyster perthnasol o fewn blwyddyn i ddechrau yn y rôl. Dylai unrhyw staff dan hyfforddiant gael eu goruchwylio a'u samplo'n fewnol yn fwy trwyadl hyd nes y bydd gofynion y rôl wedi'u bodloni'n llawn.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Rhaid i holl staff y ganolfan gadw cofnod cywir parhaus o unrhyw weithgarwch datblygiad proffesiynol parhaus yn y maes Tai neu sector sy'n gysylltiedig â Thai, yn ogystal ag unrhyw weithgarwch sy'n ymwneud ag asesu a sicrhau ansawdd mewnol. Gellir gofyn am gofnodion o weithgarwch datblygiad proffesiynol parhaus ar unrhyw adeg.

# Asesu

Rhaid i ganolfannau gyfeirio at ddogfennau polisi ac arweiniad canolfan Sefydliad Dyfarnu'r CIH cyn datblygu eu cyrsiau a'u hasesiadau cysylltiedig.

Pwrpas asesu yw gwneud dyfarniad cyson a dilys bod dysgwyr wedi cyrraedd y safon sy'n ofynnol i ennill y cymhwyster. Mae'r meini prawf asesu ym mhob uned yn dangos y dystiolaeth y bydd angen i ddysgwyr ei chynhyrchu i ddangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu.

Mae'r holl asesiadau ar gyfer y cymhwyster yn cael eu llunio gan y ganolfan, eu marcio gan y ganolfan ac yna mae'n rhaid i'r ganolfan sicrhau eu hansawdd yn fewnol, a chael sicrwydd allanol gan Sefydliad Dyfarnu'r CIH).

## Asesiadau a luniwyd gan y ganolfan

Mae agwedd Sefydliad Dyfarnu'r CIH at asesu cymwysterau yn galluogi canolfannau i lunio'r asesiadau.

Gwneir hyn er mwyn cael asesiad priodol sy'n adlewyrchu profiad dysgu unigryw a'i roi yng nghyd-destun amgylchiadau lleol grwpiau dysgwr penodol.

Disgwylir i ganolfannau greu strategaethau asesu sy'n diwallu anghenion eu grwpiau dysgwyr yn uniongyrchol ac sy'n ystyried gofynion cyflogwyr lleol.

## Egwyddorion asesu

Wrth lunio a darparu asesiadau, rhaid dilyn yr egwyddorion canlynol.

### Dilysrwydd

Mae asesiad yn ddilys os yw'n glir ac yn ddiamwys, 'yn gwneud beth mae'n ei ddweud ar y tun', yn ateb y gofyn, a bod canlyniadau'r asesiad yn bodloni eu dibenion arfaethedig.

### Dibynadwyedd

Mae asesiad yn ddibynadwy os nad yw siawns yn dylanwadu ar ei ganlyniadau, a bod y broses asesu'n cynhyrchu canlyniadau a fyddai'n cael eu hatgynhyrchu pe bai'r asesiad yn cael ei ailadrodd.

### Cymaroldeb

Mae modd cymharu safon y canlyniadau asesu rhwng asesiadau o fewn cymhwyster, rhwng cymwysterau tebyg, gyda sefydliadau dyfarnu eraill, a dros amser.

### Gallu i reoli

Mae'n hawdd rheoli'r asesiad ac mae'r broses reoli'n un sy'n gosod gofynion rhesymol ar ganolfannau a dysgwyr. Bydd rhesymoldeb yn seiliedig ar raddfa'r broses asesu wedi'i chydbwyso gan ddefnyddioldeb y canlyniadau.

**Lleihau rhagfarn**

Nid yw asesiad yn cynhyrchu canlyniadau afresymol o niweidiol i ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd gyffredin (ac) sy'n ymwneud â thegwch i bob dysgwr, a dyletswyddau cydraddoldeb statudol.

## Dulliau asesu

Mae Sefydliad Dyfarnu'r CIH yn annog defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu i'w cynnwys yn eich strategaeth asesu a'ch briffiau asesu cysylltiedig, ar yr amod eu bod yn bodloni'r egwyddorion asesu a amlinellir uchod, a'u bod yn briodol i'r meini prawf asesu. Gallai dulliau asesu addas gynnwys y canlynol:

- Portffolio tystiolaeth
- Asesiadau sy'n seiliedig ar dasgau
- E-asesu
- Arddangos/aseiniad
- Cyflwyniad
- Trafodaeth broffesiynol neu gyfweliad.

Mae canllawiau ar ddefnyddio dulliau asesu ar gael yn y polisïau a'r dogfennau canllaw. Os hoffech chi ddefnyddio ddulliau asesu ychwanegol neu arloesol, cysylltwch â ni i gael rhagor o gyngor.

## Ystyriaethau arbennig ac addasiadau rhesymol

Mae Sefydliad Dyfarnu'r CIH yn mynnu bod canolfannau'n cydymffurfio â pholisi ystyriaethau arbennig ac addasiadau rhesymol y Sefydliad. Mae'n rhaid i'r ganolfan roi'r addasiadau i'r asesiad ar waith a rhoi gwybod i Sefydliad Dyfarnu'r CIH am hyn.

Mae addasiad rhesymol yn golygu unrhyw gam gweithredu sy'n helpu i leihau effaith anabledd neu anhawster sy'n rhoi'r dysgwr dan anfantais sylweddol yn y sefyllfa asesu. Ni ddylai addasiadau rhesymol effeithio ar ddibynadwyedd a dilysrwydd y canlyniadau asesu.

Gellir rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwr yn dilyn asesiad wedi'i drefnu, er enghraifft:

- Os yw'r dysgwr yn colli rhan o'r asesiad o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth
  Neu
- Os yw'r dysgwr yn bresennol ar gyfer yr asesiad ond efallai eu bod dan anfantais oherwydd:
  - Salwch dros dro
  - Anaf
  - Amgylchiadau anffafriol a gododd adeg yr asesiad neu'n agos at adeg yr asesiad.

Os yw'r ganolfan yn cymeradwyo neu'n gwrthod ystyriaeth arbennig (fel addasiad asesiad bach i farc y dysgwr ar ôl asesiad, neu addasiad i ddyddiad cyflwyno asesiad), rhaid iddi gadw tystiolaeth o'i phenderfyniad er mwyn i Sefydliad Dyfarnu'r CIH graffu arni.

## Sicrhau ansawdd allanol

Fel Sefydliad Dyfarnu, rhaid i'r CIH sicrhau bod yr holl arferion Sicrhau Ansawdd Mewnol, asesu a darparu rhaglenni a gyflawnir gan Ganolfannau cymeradwy yn cael eu craffu'n allanol i ddilysu bod arferion dibynadwy, cyson a chydymffurfiol ar waith.

Mae'r holl ganolfannau cymeradwy'r CIH yn destun amrywiaeth o brosesau a gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd Allanol, gan gynnwys archwiliad sicrhau ansawdd blynyddol, samplo asesiadau'n barhaus, ac adolygiadau rheolaidd o amodau Cymeradwyo'r Canolfannau.

Cynlluniwyd strategaeth Sicrhau Ansawdd Allanol CIH i fod yn ymatebol i nodweddion risg canolfannau, ac i amrywiadau ym modelau darparu canolfannau a maint a lefel cymwysterau.

Bydd Tîm Sicrhau Ansawdd CIH yn rhoi manylion penodol am sut mae prosesau Sicrhau Ansawdd Allanol yn cael eu defnyddio ym mhob canolfan.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar bolisïau a dogfennau canllaw CIH neu cysylltwch â'r Tîm Sicrhau Ansawdd yn y cyfeiriad canlynol: quality.assurance@cih.org

## Dogfennau perthnasol eraill

Mae gan Sefydliad Dyfarnu'r CIH nifer o bolisïau a dogfennau canllaw eraill y mae'n rhaid i'ch canolfan fod yn gyfarwydd â nhw ochr yn ochr â'r manyleb cymhwyster hwn i gefnogi'r gwaith o gynllunio, darparu, asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau Sefydliad Dyfarnu'r CIH.

Mae'r dogfennau hyn ar gael yn ein system weinyddu canolfannau, Parnassus.

Os oes angen manylion mewngofnodi neu gymorth arnoch i gael mynediad i system Parnassus, cysylltwch â awarding.organisation@cih.org.

Gall canolfannau sy'n ceisio cymeradwyaeth gan Sefydliad Dyfarnu'r CIH gael mynediad at y dogfennau hyn ar gais lle bo angen hynny i gefnogi'r broses gymeradwyo, drwy gysylltu â awarding.organisation@cih.org.

# Cyfraith a rheoliadau tai

**Lefel yr uned:** **4**
**Gwerth credyd yr uned:** **6**
**Cyfeirnod yr uned:** **M/651/3053**
**Cyfeirnod Sefydliad Dyfarnu'r CIH:** **H421**
**Statws yr uned:** **Gorfodol**
**GLH/TUT:** **15/60**

**Pwrpas/amcan yr uned**

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o’r system gyfreithiol a rheoleiddiol sy'n sail i ddarparu gwasanaethau tai. Mae’n edrych ar ddeddfwriaeth allweddol sy’n berthnasol i landlordiaid a thenantiaid gan gynnwys gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a sut mae’n rhaid rhoi’r gyfraith ar waith yn ymarferol.

| Deilliannau dysgu | Meini prawf asesu |
|---|---|
| 1. Deall y fframwaith cyfreithiol mewn cyd-destun tai. | 1.1 Rhowch grynodeb o’r fframwaith cyfreithiol cenedlaethol ar gyfer y sector tai.<br>1.2 Penderfynwch pa lwybr y byddai gwahanol achosion tai yn ei ddilyn drwy’r fframwaith cyfreithiol. |
| 2. Deall **deddfwriaeth** allweddol sy’n berthnasol i denantiaid a landlordiaid a’i rhoi ar waith yn ymarferol. | 2.1 Esboniwch **deddfwriaeth allweddol sy’n berthnasol i denantiaid a landlordiaid**.<br>2.2 Rhowch grynodeb o’r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth y dylid glynu wrthynt ym maes tai.<br>2.3 Gwerthuswch y defnydd o’r gyfraith mewn maes ymarfer tai. |
| 3. Deall y rheoliadau sy’n berthnasol i’r sector tai. | 3.1 Esboniwch bwrpas rheoleiddio tai.<br>3.2 Trafodwch y **dulliau** y mae sefydliadau tai yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau rheoleiddio.<br>3.3 Esboniwch y pwerau gorfodi sydd gan reoleiddwyr. |

| Canllawiau i diwtoriaid ac aseswyr |
|---|
| Yn yr uned hon, mae tenantiaid yn cynnwys deiliaid contractau yng Nghymru.<br><br>Yn yr uned hon, mae sefydliadau tai’n cynnwys sefydliadau sy’n darparu tai neu wasanaethau tai.<br><br>Rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliad fod yn berthnasol i’r wlad y mae’r dysgwr yn astudio/ gweithredu ynddi. |
| MPA 2.1 Rhaid i **ddeddfwriaeth allweddol sy’n berthnasol i denantiaid a landlordiaid** hefyd gynnwys diogelu a diogelu data. |
| MPA 3.2 **Dulliau gweithredu** (e.e. llywodraethu corfforaethol, cynnwys preswylwyr). |

# Polisi tai

**Lefel yr uned:** **4**
**Gwerth credyd yr uned:** **6**
**Cyfeirnod yr uned:** **R/651/3054**
**Cyfeirnod Sefydliad Dyfarnu'r CIH:** **H422**
**Statws yr uned:** **Gorfodol**
**GLH/TUT:** **15/60**

**Pwrpas/amcan yr uned**

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o hanes polisi tai, o bwy sy'n cyfrannu at lunio polisïau, ac o beth sy'n dylanwadu ar bolisïau a sut maent yn cael eu datblygu. Bydd y dysgwr hefyd yn dod i ddeall sut mae polisi'n effeithio ar ymarfer.

| Deilliannau dysgu | Meini prawf asesu |
|---|---|
| 1. Deall datblygiad hanesyddol polisi tai cenedlaethol. | 1.1 Rhowch grynodeb o **ddatblygiad hanesyddol** polisi tai cenedlaethol. |
| 2. Deall sut mae polisi tai cenedlaethol cyfredol yn cael ei ddatblygu. | 2.1 Nodwch y prif ffactorau sbarduno yng nghyswllt datblygu polisi tai.<br>2.2 Nodwch y cyfranogwyr allweddol yn y broses llunio polisi.<br>2.3 Esboniwch y broses o ddatblygu polisi tai sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| 3. Deall sut mae polisi tai yn effeithio ar ymarfer. | 3.1 Archwiliwch sut mae ffactorau lleol neu ranbarthol yn effeithio ar weithredu polisi tai cenedlaethol yn ymarferol.<br>3.2 Gwerthuswch effaith **polisi tai cenedlaethol** ar ymarfer mewn sefydliad. |

| Canllawiau i diwtoriaid ac aseswyr |
|---|
| Yn yr uned hon , rhaid i unrhyw bolisïau tai cenedlaethol fod yn berthnasol i'r wlad y mae'r dysgwr yn astudio/ gweithredu ynddi. |
| MPA 1.1 **Datblygiad hanesyddol polisi tai** sy'n dechrau o ddechrau'r 20fed ganrif. |
| MPA 3.2 Dylai'r **polisi tai cenedlaethol** a ddewiswyd fod yn ddigon hanesyddol i alluogi'r dysgwr i ganfod a chael gafael ar ddata i gefnogi eu gwaith. |

# Sylw i gwsmeriaid ym maes tai

**Lefel yr uned:** **4**
**Gwerth credyd yr uned:** **6**
**Cyfeirnod yr uned:** **T/651/3055**
**Cyfeirnod Sefydliad Dyfarnu'r CIH:** **H423**
**Statws yr uned:** **Gorfodol**
**GLH/TUT:** **15/60**

**Pwrpas/amcan yr uned**

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth o bwysigrwydd gwasanaeth da i gwsmeriaid, a chyfathrebu. Mae'n ymdrin â hanfodion gwasanaeth i gwsmeriaid, sut i gasglu a defnyddio data cwsmeriaid i wella gwasanaethau a sut mae arferion ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth da. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd datblygu a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiaeth eang o gwsmeriaid tai.

| Deilliannau dysgu | Meini prawf asesu |
|---|---|
| 1. Deall egwyddorion gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid ym maes tai. | 1.1 Disgrifiwch yr **egwyddorion craidd** sy'n sail i wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.<br>1.2 Esboniwch **fanteision** cyfathrebu dwyffordd effeithiol yng nghyd-destun gwasanaeth i gwsmeriaid. |
| 2. Deall sut mae gwella profiad y cwsmer. | 2.1 Gwerthuswch sut mae **data meintiol ac ansoddol** yn cael ei gasglu i ddeall yr ystod amrywiol o anghenion sydd gan gwsmeriaid ym maes tai.<br>2.2 Esboniwch sut y gellir defnyddio **argraffiadau cwsmeriaid** i fesur **perfformiad y sefydliad**, nodi meysydd y mae angen eu gwella, a diwallu anghenion amrywiol cwsmeriaid tai. |
| 3. Deall pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i sefydliadau tai a'u cwsmeriaid. | 3.1 Esboniwch bwysigrwydd dulliau cynhwysol o gyfathrebu â chwsmeriaid ym maes tai.<br>3.2 Trafodwch sut mae defnyddio polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gallu effeithio ar ansawdd gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai.<br>3.3 Esboniwch sut mae gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ymarferol yn cefnogi amcanion busnes sefydliadau tai. |
| 4. Deall rôl tai o ran cefnogi cwsmeriaid sy'n teimlo'n agored i niwed. | 4.1 Amlinellwch sut mae cefnogi gwahanol gwsmeriaid sy'n teimlo'n agored i niwed ym maes tai. |

| Deilliannau dysgu | Meini prawf asesu |
|---|---|
| | 4.2 Adolygwch pa mor effeithiol yw gwasanaeth tai presennol o ran diwallu anghenion cwsmeriaid sy'n agored i niwed neu sydd ag anghenion ychwanegol. |

| Canllawiau i diwtoriaid ac aseswyr |
|---|
| Yn yr uned hon, gall cwsmeriaid hefyd gyfeirio at denantiaid/preswylwyr neu ddeiliaid contractau yng Nghymru.<br><br>Rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliad fod yn berthnasol i'r wlad y mae'r dysgwr yn astudio/ gweithredu ynddi.<br><br>Mae sefydliadau tai'n cynnwys unrhyw sefydliad sy'n darparu tai neu wasanaethau tai, a gellir eu rhoi mewn cyd-destun i'r dysgwr. |
| MPA 1.1 Gallai **egwyddorion craidd** gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:<br><br>• Cyfathrebu<br>• Empathi<br>• Rhoi anghenion y cwsmer yn gyntaf<br>• Gwrando<br>• Tryloywder<br>• Gonestrwydd<br>• Proffesiynoldeb<br>• Cysondeb.<br><br>MPA 1.2 Gallai **bendithion** gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:<br><br>• Helpu i ddeall anghenion cwsmeriaid<br>• Meithrin ymddiriedaeth<br>• Rhagweld problemau neu reoli gwrthdaro<br>• Rheoli disgwyliadau<br>• Gwneud penderfyniadau gwybodus<br>• Cydnabod amrywiaeth<br>• Cefnogi cynhwysiant<br>• Gwella bodlonrwydd. |
| MPA 2.1 Mae **data meintiol ac ansoddol** yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i e.e. (data systemau, arolygon, cwynion ac adborth, ymgysylltu â thenantiaid a'u cynnwys).<br>MPA 2.2 **Argraffiadau cwsmeriaid** a geir o ganfyddiadau'r data a ddisgrifir uchod. **Perfformiad sefydliadol** gan gynnwys yn erbyn amcanion busnes ac unrhyw ofynion neu safonau cyfreithiol neu reoleiddiol. |

# Proffesiynoldeb ym maes tai

| | |
|---|---|
| **Lefel yr uned:** | 4 |
| **Gwerth credyd yr uned:** | **6** |
| **Cyfeirnod yr uned:** | **Y/651/3056** |
| **Cyfeirnod Sefydliad Dyfarnu'r CIH:** | **H424** |
| **Statws yr uned:** | **Gorfodol** |
| **GLH/TUT:** | **15/60** |

**Pwrpas/amcan yr uned**

Nod yr uned hon yw rhoi cyfle i bwyso a mesur yr hyn â olygir gyda phroffesiynoldeb mewn cyd-destun tai, a bydd y dysgwr yn dadansoddi ei arferion proffesiynol ei hun yn erbyn safonau proffesiynol. Mae hefyd yn edrych ar bwysigrwydd arfer barn broffesiynol, defnyddio model ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus, ynghyd â chyfle i greu cynllun datblygiad proffesiynol.

| Deilliannau dysgu | Meini prawf asesu |
|---|---|
| 1. Deall beth yw ystyr proffesiynoldeb yng nghyd-destun tai. | 1.1 Esboniwch ystyr 'proffesiynoldeb' mewn cyd-destun tai gan gyfeirio at God Ymddygiad a Chod Moeseg CIH.<br>1.2 Esboniwch pam mae diwylliant o broffesiynoldeb yn bwysig mewn **sefydliad tai**. |
| 2. Deall safonau proffesiynol ac ymarfer proffesiynol. | 2.1 Dadansoddwch arferion proffesiynol personol yn erbyn **safonau proffesiynol CIH**. |
| 3. Deall pwysigrwydd barn broffesiynol ac ymarfer myfyriol mewn cyd-destun tai. | 3.1 Esboniwch pam ei bod yn bwysig defnyddio barn broffesiynol a ffiniau proffesiynol mewn cyd-destun tai.<br>3.2 Esboniwch sut mae defnyddio ymarfer myfyriol wrth ddysgu drwy brofiad.<br>3.3 Disgrifiwch **sefyllfa yn y gweithle** sydd wedi herio barn broffesiynol bersonol.<br>3.4 Defnyddiwch model ymarfer myfyriol yn y sefyllfa a ddisgrifir ym maen prawf asesu 3.3. |
| 4. Gallu rheoli eich datblygiad proffesiynol personol. | 4.1 Esboniwch pwysigrwydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i weithwyr proffesiynol ym maes tai.<br>4.2 Ewch ati i greu cynllun datblygu proffesiynol i'ch cefnogi yn eich rôl bresennol, a chyda heriau a nodau yn y dyfodol. |

| Canllawiau i diwtoriaid ac aseswyr |
|---|
| MPA 1.2 Mae **sefydliad tai** yn cynnwys unrhyw sefydliad sy'n darparu tai neu wasanaethau tai, a gellir ei roi mewn cyd-destun i'r dysgwr. |

| Canllawiau i diwtoriaid ac aseswyr |
| --- |
| MPA 2.1 Mae **safonau proffesiynol CIH** yn cyfeirio at safonau proffesiynol CIH, mae manylion y safonau, ac adnodd asesu ar gael am ddim ar wefan CIH i gefnogi'r gweithgaredd hwn: https://www.cih.org/professional-standards. |
| MPA 3.3 a 3.4 Dyma enghreifftiau o **sefyllfaoedd yn y gweithle** ar gyfer amryw o rolau*:<br><br>• Nodi mater cydymffurfio a allai arwain at gosbau rheoleiddiol<br>• Delio â sefyllfa lle na chafodd cwyn tenant ei datrys yn foddhaol, gan arwain at uwchgyfeirio ffurfiol<br>• Penderfynu a ddylid rhoi mesurau arbed costau ar waith a allai effeithio ar ansawdd gwasanaethau i gwsmeriaid/ tenantiaid<br>• Nodi anghysondebau mewn cofnodion ariannol a allai awgrymu bod arian yn cael ei gamddefnyddio<br>• Mae gweithiwr yn gwneud cwyn yn erbyn rheolwr sy'n hanfodol i weithrediadau'r sefydliad neu sy'n ffrind personol y tu allan i'r gwaith<br>• Mae swyddog tai'n gofyn am gael gafael ar ddata tenantiaid ar system TG nad oes ganddynt fynediad ati fel arfer. Mae'n nhw'n dweud bod angen hyn er mwyn gwneud gwaith brys y mae'n rhaid ei gwblhau.<br><br>* Lle nad yw'r dysgwr yn gallu darparu unrhyw enghraifft bersonol, gallant greu neu ddefnyddio astudiaeth achos ar gyfer y Maen Prawf Asesu hwn sydd wedi'i roi yng nghyd-destun ei rôl. |

# Darparu gwasanaethau i gefnogi iechyd a llesiant ym maes tai

**Lefel yr uned:** **4**
**Gwerth credyd yr uned:** **6**
**Cyfeirnod yr uned:** **A/651/3057**
**Cyfeirnod Sefydliad Dyfarnu'r CIH:** **H425**
**Statws yr uned:** **Dewisol**
**Oriau Dysgu dan Arweiniad:** **15/60**

**Pwrpas/amcan yr uned**

Nod yr uned yw rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddysgwyr sy'n gweithredu yn y sector tai i ddarparu gwasanaethau i gefnogi a hyrwyddo iechyd a llesiant defnyddwyr gwasanaeth.

| Deilliannau dysgu | Meini prawf asesu |
|---|---|
| 1. Deall rôl tai o ran cefnogi iechyd a llesiant. | 1.1 Gwerthuswch rolau a chyfrifoldebau unigolion a sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi defnyddwyr gwasanaethau.<br>1.2 Rhowch grynodeb o'r gwasanaethau allweddol sydd ar gael ar gyfer iechyd a llesiant yn y sector tai. |
| 2. Deall rôl gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth o ran darparu gwasanaethau iechyd a llesiant ym maes tai. | 2.1 Aseswch y gofynion ar gyfer datblygu perthynas waith effeithiol â chydweithwyr mewn sefydliadau eraill.<br>2.2 Esboniwch y prosesau sydd eu hangen i ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth.<br>2.3 Aseswch effeithiolrwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn feirniadol. |
| 3. Deall rôl cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau iechyd a llesiant ym maes tai. | 3.1 Disgrifiwch y cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaethau gymryd rhan yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau iechyd a llesiant ym maes tai.<br>3.2 Gwerthuswch effaith cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a llesiant ym maes tai. |
| 4. Deall sut mae gwella gwasanaethau cymorth tai yn barhaus. | 4.1 Gwerthuswch effeithiolrwydd prosesau cynllunio cymorth a phrosesau asesu risg ac anghenion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.<br>4.2 Aseswch oblygiadau prosesau cynllunio cymorth a phrosesau asesu risg ac anghenion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddarpariaeth gwasanaethau. |

# Cyllid ym maes tai

| | |
|---|---|
| **Lefel yr uned:** | **4** |
| **Gwerth credyd yr uned:** | **6** |
| **Cyfeirnod yr uned:** | **D/651/3058** |
| **Cyfeirnod Sefydliad Dyfarnu'r CIH:** | **H426** |
| **Statws yr uned:** | **Dewisol** |
| **GLH/TUT:** | **15/60** |

**Pwrpas/amcan yr uned**

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth o bolisi cyllido, incwm a gwariant ym maes tai. Bydd y dysgwr hefyd yn dod i ddeall cyllidebu a llunio rhagolygon.

| Deilliannau dysgu | Meini prawf asesu |
|---|---|
| 1. Deall effaith polisi cyllido ar ddarpariaeth tai. | 1.1 Disgrifiwch y cymorthdaliadau i ddefnyddwyr a chynhyrchwyr ar gyfer pob math o ddaliadaeth tai.<br>1.2 Dadansoddwch effaith y mae cymorthdaliadau yn ei chael ar y cyflenwad tai a'r galw am dai yn rhanbarthol a chenedlaethol.<br>1.3 Esboniwch sut mae cyllid yn effeithio ar fuddsoddi mewn adeiladau newydd a stoc sydd eisoes yn bodoli. |
| 2. Deall incwm a gwariant darparwyr tai. | 2.1 Rhowch grynodeb o'r ffynonellau incwm a gwariant ar gyfer gwahanol fathau o ddarparwyr tai.<br>2.2 Esboniwch gyfyngiadau sy'n effeithio ar incwm a gwariant **sefydliad tai**. |
